**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Tachwedd 2019, yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd B. Mellor (Is-gadeirydd)

Y Cynhorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones,
Mrs E. M. Chard, A. R. James, S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones,
Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast,
Ms V. Roberts, T. Thomas, R. J. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**25. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Ms J. Hughes, Miss S. L. Roberts ac A. J. Rutherford.

**26. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – HYDREF 2019**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed ac incwm a dderbyniwyd.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 845 | Shire Leasing | 337.33 | Prydles System Ffôn Avaya taliad Ch 3 19/20 |
| 843 | BT | 386.36 | Rhentu Llinell a Galwadau Ffôn |
| 844 | BT | 99.86 | Rhentu Llinell |
| 852 | HSBC | 15.49 | Taliadau Banc 17 Awst 2019 - 16 Medi 2019 |
| 856 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,290.48 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Medi 2019 |
| 855 | CThEM | 2,742.91 | Didyniadau PAYE Medi 2019 |
| 853 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Medi 2019 |
| 854 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,164.52 | Cyflogau Staff Rhagfyr 2019 |
| 716 | Cyngor Sir Ddinbych | 723.00 | AAC ar gyfer swyddfeydd Ffordd Wellington Taliad 7 o 10 |
| 723 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser Taliad 7 o 12 |
| 861 | Sage & Co | 93.00 | Ffioedd Cyflogres Gorffennaf - Medi 2019 |
| 731 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Arbed Ynni 19/20 Taliad 3 o 4 |
| | | | |
| | **Cyfanswm Taliadau** | **£20,209.62** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llogau | Cyfrif Hysbysiad 31 Diwrnod Santander | 40.07 |
| Llogau | Cyfrif 7 Diwrnod HSBC Money Market | 28.78 |
| Llogau | Cyfrif 7 Diwrnod HSBC Money Market | 28.30 |
| TAW | Ad-daliad TAW – Cais Chwarter 2 i CThEM | 10,634.48 |
| Llogau | Cyfrif 7 Diwrnod HSBC Money Market | 28.30 |
| Llogau | Cyfrif 7 Diwrnod HSBC Money Market | 28.31 |
| Llogau | Cyfrif 7 Diwrnod HSBC Money Market | 28.31 |
| | | |
| | **Cyfanswm Incwm** | **10,719,40** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 27. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 862 | Y Cyngh E Chard | Treuliau Maer Medi 2019 | 125.60 |
| 863 | Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion y gaeaf | 1,473.36 |
| 864 | Y Cyngh B Mellor | Costau Teithio | 65.25 |
| 865 | Y Cyngh D King | Treuliau Dirprwy Faer Medi 2019 | 41.40 |
| 866 | Conrad Office & Art | Papurach | 280.41 |
| 867 | Bernie's Miles of Smiles | Peintio wynebau ar gyfer Digwyddiad Calan Gaeaf | 90.00 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£2,076.02** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 28. ARCHWILIAD 2017/18

Adroddodd Clerc y Dref bod yr archwiliad nawr wedi ei gwblhau, gydag argymhellion yr Archwiliwr Cyffredinol yn cael eu gweithredu a byddai adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**29. PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – ADRODDIAD DRAFFT 2020/21**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr uchod (darnau o'r penderfyniadau drafft perthnasol wedi eu dosbarthu gyda'r rhaglen) a dywedodd nad oedd unrhyw newididau wedi eu gwneud i'r lwfansau y gellir eu hawlio gan yr aelodau.

I osgoi sefyllfa bosibl lle mae cynghorydd yn hawlio lwfans ar 1af Ebrill a mynd ymlaen i golli ei sedd y mis canlynol, awgrymodd Clerc y Dref bod y lwfansau yn rhedeg o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor (mis Mai i fis Mai) yn hytrach na mis Ebrill i fis Ebrill.

***PENDERFYNWYD*** *bod lwfansau blynyddol yn cael eu talu o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor bob blwyddyn.*

**30. CADEIRYDD YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG – ADRODDIAD SICRHAD**

Ymhellach i gofnod rhif 5 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Mehefin 2019, cyfeiriodd y Cadeirydd at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a gyflwynwyd yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad, gan ddiolch i'r Cadeirydd.*

**31. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30AIN MEDI 2019 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2019/20**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar gynnydd a pherfformiad o gymharu gyda'r gyllideb.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**32. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – SIARTER CYDYMFFURFIAD CYNLLUNIO**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a oedd yn cynnig y gallai cynghorwyr tref gynorthwyo'r Adran Gynllunio drwy ymyrryd yn bersonol yn gynnar i ganfod ateb cyfeillgar gyda thrigolion, gan ddarparu tystiolaeth ffotograffig o gwynion, defnyddio'r ffurflen benodol ar gyfer adrodd am broblemau ac ati.

***PENDERFYNWYD*** *bod cynghorwyr yn gwneud sylwadau unigol i'r Adran Gynllunio.*

**33. EITEM ER GWYBODAETH GAN AELOD: CYSTADLEUAETH 'FFENESTRI NADOLIG'**

Gofynnodd y Councillor Mrs W. M. Mullen-James i'r aelodau ei helpu i ddosbarthu ffurflenni cais eleni i fusnesau lleol, a bu iddynt wirfoddoli i wneud hynny.

**34. <u>EITEM WYBODAETH GAN AELOD: CWESTIYNAU SC2</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield pryd y byddai Mr Jamie Groves yn mynychu cyfarfod y Cyngor Tref i drafod oriau agor a lefelau staffio SC2.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai'n mynychu cyfarfod mis Ionawr y Cyngor.

**35. <u>GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**36. <u>ADNEWYDDU GWEINYDD Y CYNGOR TREF</u>**

Adroddodd Clerc y Dref bod gweinydd y Cyngor nawr yn dod i ddiwedd ei oes ac yn achosi rhai problemau.

Byddai cost gweinydd newydd oddeutu £2,000 ac felly roedd Clerc y Dref angen awdurdod yr aelodau i fynd ymlaen â'r archeb.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *awdurdodi Clerc y Dref i archebu'r gweinydd.*

***<u>PENDERFYNWYD YMHELLACH</u>*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

**37. <u>TERFYNU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………